Ein Cyf: WAQ54991

Andrew R T Davies AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1MA

22 Hydref 2009

Annwyl Andrew

Cyflwynoch Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad yn ddiweddar, yn gofyn pa gamau newydd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i ddatblygu cartrefi nyrsio di-elw fel ag a gynigir yn Agenda Cymru'n Un. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi pasio'r cwestiwn imi ei ateb gan fod yr ymrwymiad hwn yn Cymru'n Un yn rhan o ´mhortffolio i.

Rydym wedi ystyried nifer o drywyddau posibl ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn ac rydym wrthi'n datblygu 'Model Canolfan Adnoddau' ar y cyd ag awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

Y pwrpas yw ailfodelu gwasanaethau er mwyn eu cynnal yn yr un lle. Gallai hynny olygu datblygu ystod o wasanaethau ar yr un safle a allai gynnwys gwelyau cartrefi nyrsio, gofal dydd, cartrefi gofal ychwanegol, canolfan wybodaeth, swyddfa ar gyfer gwasanaethau cymunedol, meddygfa ac ati. Gallai'r elfen cartref nyrsio ysgwyddo nifer o swyddogaethau gan gynnwys gwelyau tymor hir, gwelyau pontio at ddiben adsefydlu, gwelyau seibiant neu welyau meddygon teulu. Byddai'r dewis o wasanaethau'n dibynnu ar anghenion lleol.

Rwy'n credu'n gryf y byddai hyn yn ffordd fwy hyblyg i ymateb i anghenion lleol a dylai brofi'n ddatblygiad cyffrous, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**